Pecyn Dogfen Cyhoeddus


At: Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 8 Rhagfyr 2015

Rhif Union: 01824 712568

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk


Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 16 RHAGFYR 2015** am **2.00 pm** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHIN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CAIS ER YSTYRIAETH -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED BERSONOL - YMGEISYDD RHIF 15/1517/LAPER** (Tudalennau 5 - 14)

Ystyried cais am Drwydded Bersonol gan Ymgeisydd Rhif 15/1517/LAPER a gyflwynwyd yn unol ag Adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Bill Cowie | Huw Williams |
| Cefyn Williams | |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy'n bresennol. Mae'n cyflwyno'r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a'r Swyddogion sy'n Bresennol. |
| 2. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais. |
| 3. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno'r Cais. |
| 4. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu'r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda'r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda'r Clerc i'r Gwrandawiad a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda'u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i'w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

…………………………

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 16 Rhagfyr 2015 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706451 licensing@denbighshire.gov.uk |
| **TESTUN:** | **Deddf Drwyddedu 2003**<br>**Cais am Drwydded Bersonol**<br>**Rhif yr Ymgeisydd: 15/1517/LAPER** |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael cais am Drwydded Bersonol newydd, a gyflwynwyd yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Drwyddedu 2003. O ganlyniad i'r ymgynghori angenrheidiol mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn sylwadau perthnasol sy'n gwrthwynebu'r Cais. Rhaid i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, gan gymryd i ystyriaeth yr holl ffeithiau/dystiolaeth.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Cais yw hwn am Drwydded Bersonol newydd. Mae'r sylwadau'n ymwneud ag Atal Trosedd ac Anhrefn.

2.2 Atgoffir Aelodau bod angen i unrhyw benderfyniad gael ei wneud yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a'r (ii) Canllawiau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Gan weithredu yng nghapasiti Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu, ac os yw Aelodau'n ystyried bod materion yn gysylltiedig ac un neu fwy o'r amcanion, gallant arfer eu disgresiwn.

2.4 Atgoffir aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu nad ydynt yn gallu arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, am y rheswm syml eu bod yn dymuno gwneud hynny, a dylai roi rheswm/rhesymau am unrhyw benderfyniad a gymerir, neu os ydynt yn ystyried gwyro mewn unrhyw ffordd oddi wrth y Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

## 3. ARGYMHELLION / DEWISIADAU

### 3.1 Penderfyniad yr Is-bwyllgor

Rhaid i'r Is-bwyllgor, gan roi sylw i'r sylwadau a wnaed, gymryd y cyfryw gamau (isod) y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol er mwyn hybu'r amcanion trwyddedu

gall yr Is-bwyllgor:

- Ganiatáu'r Cais
- Wrthod y Cais

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Ar 5 Tachwedd 2015, derbyniodd yr Awdurdod Trwyddedu gais am Drwydded Bersonol. Cyflwynwyd y Cais gan y Ganolfan Gwybodaeth Hyfforddiant, Penbedw ar ran Ymgeisydd Rhif 15/1517/LAPER.

4.2 Mae'r Ddeddf Drwyddedu'n diffinio 'trwydded bersonol' fel trwydded a roddir gan Awdurdod Trwyddedu i unigolyn, ac sy'n awdurdodi'r unigolyn hwnnw neu honno i gyflenwi alcohol, neu awdurdodi cyflenwi alcohol, yn unol â thrwydded y safle. Mae trwydded bersonol yn weithredol am nifer anghyfyngedig o flynyddoedd, oni bai ei bod yn cael ei hildio, ei ddirymu, ei gohirio neu ei fforffedu.

4.3 Mae gofynion ar gyfer Trwydded Bersonol wedi eu rhagnodi gan Ran 6 o'r Ddeddf Drwyddedu. Er mwyn caniatáu'r Drwydded, rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r meini prawf canlynol:

- rhaid i ymgeisydd fod dros 18 oed;
- meddu ar y cymwysterau trwyddedu perthnasol;
- nad yw trwydded bersonol wedi ei fforffedu o fewn y 5 mlynedd blaenorol, a
- heb ei gael/chael yn euog o unrhyw drosedd berthnasol neu drosedd tramor.

4.4 Os na fodlonir unrhyw un o'r tri maen prawf cyntaf, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu wrthod y cais; os bydd y tri cyntaf yn cael eu bodloni ond nad yw'r ymgeisydd yn gallu bodloni'r pedwerydd, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu hysbysu pennaeth yr heddlu os cafwyd yr ymgeisydd yn euog o unrhyw drosedd perthnasol neu dramor.

Ar ôl cael eu hysbysu, mae gan yr heddlu 14 diwrnod i wneud

4.5 gwrthwynebiad os ydynt yn ystyried y byddai caniatáu'r drwydded yn tanseilior amcan atal trosedd y Ddeddf Drwyddedu.

Sylwadau Perthnasol

4.6 Mae'r Ymgeisydd wedi datgan manylion Trosedd Perthnasol ac mae sylwadau a fernir sy'n berthnasol gan Bennaeth Cynllun a Gwarchod y Cyhoedd wedi eu derbyn gan yr heddlu o fewn y cyfnod penodedig. Gallwch weld copi o'r sylwadau yn **Atodiad A (dogfen gyfyngedig)**, ynghyd â chopi o'r cais yn **Atodiad B (dogfen gyfyngedig)**.

4.6.1 Hysbyswyd yr Ymgeisydd fod sylwadau wedi eu derbyn ac fe'i gwahoddwyd i'r Gwrandawiad.

**Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Ystyriaethau Polisi**

4.6.2 Mae'r sylwadau perthnasol yn gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu.

O safbwynt y Cais hwn, cyfeirir yr Is-bwyllgor at y Canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Drwyddedu 2003:

- Trwyddedau Personol **Adran 4**
- Atal Trosedd ac Anhrefn **Adran 2.1 i 2.5**

Datganiad o Bolisi Trwyddedu

4.6.3 O safbwynt y Cais hwn, cyfeirir yr Is-bwyllgor at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anhrefn **Adran 5**

4.7 Yn olaf, atgoffir Aelodau hefyd, wrth benderfynu ynglŷn â'r cais yn unol â'r Ddeddf Drwyddedu, bod yn rhaid iddynt hefyd rhoi sylw i –

- Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n gosod dyletswydd i atal/leihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfraith gyffredin cyfiawnder naturiol
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

**5.0 SYLWADAU SWYDDOGION**

5.1 Mae Pennaeth Cynllun a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i helpu Aelodau gyda'u trafodaethau.

5.2 I ddibenion cael Trwydded Bersonol, mae angen i ymgeiswyr ddatgan yn unig droseddau perthnasol neu droseddau tramor sydd heb ddarfod o dan delerau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

5.3 Mae’r Ymgeisydd wedi datgan ei fod wedi ei gael yn euog o drosedd perthnasol sydd heb ddarfod (Atodiad A). Er gwybodaeth i Aelodau, mae diffiniad o drosedd perthnasol yn Adran 113 o Atodlen 4 y Ddeddf Drwyddedu, ond mae troseddau perthnasol yn cynnwys:

- y rhai sy’n gysylltiedig â throsedd difrifol;
- y rhai sy’n gysylltiedig ag anonestrwydd difrifol;
- y rhai sy’n gysylltiedig â chyffuriau dan reolaeth;
- troseddau rhyw penodol, a
- throseddau a grëwyd gan y Ddeddf Drwyddedu

**6.0 CRYNODEB**

6.1 Dylai Aelodau ystyried yn llawn Ganllawiau a Datganiad o Bolisi Trwyddedu’r Cyngor, gan roi sylw arbennig i’r meysydd hynny a bwysleisir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau bod angen tystiolaeth/rheswm da i wyro oddi wrth y Polisi.

6.2 Bydd angen i Aelodau benderfynu a fyddai’n hybu amcan atal trosedd ac anhrefn y Ddeddf Drwyddedu wrth ganiatáu’r cais hwn.

6.3 Gyda golwg ar y sylwadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru, bydd Aelodau’n dymuno rhoi ystyriaeth ofalus i’r Cais hwn am Drwydded Bersonol.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag